## ATODLEN 1

## Diwygio Is-ddeddfwriaeth ym maes Addysg

### *Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Darparu Gwybodaeth gan Awdurdodau Addysg Lleol) (Cymru) 2002*

**9.**—(1) Diwygir Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Darparu Gwybodaeth gan Awdurdodau Addysg Lleol) (Cymru) 2002(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn nheitl y Rheoliadau yn lle "Awdurdodau Addysg Lleol" rhodder "Awdurdodau Lleol".

(3) Yn rheoliad 1(1) yn lle "Awdurdodau Addysg Lleol" rhodder "Awdurdodau Lleol".

(4) Yn rheoliad 1(2) hepgorer y diffiniad o "awdurdod gwasanaethau cymdeithasol".

(5) Yn rheoliad 2 yn lle "awdurdod addysg lleol" rhodder "awdurdod lleol".

(6) Yn rheoliad 3—

(a) ym mharagraff (1) yn lle "awdurdod addysg lleol" ym mhob man lle y mae'r geiriau hynny'n digwydd rhodder "awdurdod lleol";

(b) ym mharagraff (1)(a) yn lle "awdurdod gwasanaethau cymdeithasol" rhodder "unrhyw awdurdod lleol arall";

(c) ym mharagraff (4) yn lle "awdurdod addysg lleol" ym mhob man lle y mae'r geiriau hynny'n digwydd rhodder "awdurdod lleol"; ac

(ch) ym mharagraff (4)(a) yn lle "awdurdod gwasanaethau cymdeithasol" rhodder "awdurdod lleol arall".

(7) Yn nheitl yr Atodlen yn lle "Awdurdodau Addysg Lleol" rhodder "Awdurdodau Lleol".

(8) Yn yr Atodlen yn lle "awdurdod addysg lleol" ym mhob man lle y mae'r geiriau hynny'n digwydd rhodder "awdurdod lleol".

(**1**) O.S. 2002/157 (Cy.23) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/2913 (Cy.210).